

AGENDA

ar gyfer

Sesiwn Gwrandawriad 9 ar 21 Awst 2019 am 10:00

MATER 9: DYRANIADAU/CYFLENWADAU TAI; MATERION ERAILL

9.0. Sylwadau agoriadol a chyflwyniadau

9.1. Dyraniadau tai

- a. Dyrannu safle **SW3.31 Cwmfelin, Bedlinog** – cynigir ei ddileu. A ddylai'r safle hwn barhau oddi fewn i ffin yr anheddiad?

9.2. Cyflenwad tai (yn cynnwys polisi SW3)

- a. Cadw cyflenwad tai 25% yn uwch na'r gofyniad dynodedig, cynigir bod tri safle ychwanegol¹ yn cael eu dyrannu.
 - i. Mae caniatâd cynllunio gan y tri safle. A fyddai datblygiad o'r safleoedd hyn ar gyfer tai yn alinio gyda strategaeth ofodol y Cynllun?

9.3. Materion Eraill

- a. Yng ngoleuni'r llythyr a anfonwyd i awdurdodau lleol gan Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 8 Gorffennaf 2019², a fyddai'r Cynllun yn darparu digon o gefnogaeth am **safleoedd a arweinir gan Dai Fforddiadwy?** Yn benodol:
 - i. A ddylai polisi SW2 'Darparu Tai Fforddiadwy' ddatgan, ble y mae arian grant yn ei hwyluso, y byddai cynigion a arweinir gan dai fforddiadwy yn cael eu cefnogi?
 - ii. A ddylai'r cyfiawnhad rhesymedig i bolisi SW9 'Goblygiadau Cynllunio' ddatgan fod lefelau safle-benodol a ddynodwyd o Dai Fforddiadwy yn berthnasol i unedau a ddarparwyd drwy'r system gynllunio (hynny yw yn derbyn cymhorthdal gan anheddau'r farchnad)?
- b. A fyddai newidiadau arfaethedig y Cyngor i'r **fframwaith polisi mwynau**³ yn alinio'n ddigonol â pholisi cenedlaethol sy'n berthnasol i ddiogelu ac echdynnu adnoddau glo⁴?
- c. **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020-2040**⁵ ('FfDC') – cafodd ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymgynghoriad ar 7 Awst.
 - i. Er na ddisgwylir ei gyhoeddi yn ei ffurf derfynol tan yn hwyr yn 2020, a oes gan yr FfDC sy'n ymddangos unrhyw oblygiadau ymarferol arfaethedig i'r Cynllun, yn

¹ Ymateb y Cyngor i bwynt gweithredu 4.3 [ED045]

² Ymateb y Cyngor i bwynt gweithredu 3.4 [ED045]

³ Ymateb y Cyngor i bwynt gweithredu 8.1 [ED047]

⁴ Cyfeiriwch at nodyn atodol yr Arolygydd am arsylwadau manwl

⁵ <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-08/Draft%20National%20Development%20Framework.pdf>

enwedig o ran fframwaith polisi gofodol sy'n ymddangos ar gyfer rhanbarth De-ddwyrain Cymru?

d. Unrhyw Faterion eraill; y camau nesaf